



Asiantaeth
Safonau
Bwyd

food.gov.uk

Food
Standards
Agency

Papurau Cyfarfod Agored
Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
8 Mawrth 2018

Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
8 Mawrth 2018

Prif Neuadd, Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2TR

Agenda Cyfarfod Agored

Cofrestru a phaned 09:15 – 09:25

Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau 09:25 – 09:30

Paratoi ar gyfer eitemau i'w trafod gan y Bwrdd

Diweddariad ar Wyddoniaeth 09:30 - 10:00
Papur FSAW 18/03/04

Diweddariad gan Gadeirydd y Cyngor Gwyddoniaeth 10:00 - 10:20
Papur FSAW 18/03/05

Llaeth Yfed Amrwd 10:20 - 11:00
Papur FSAW 18/03/06

Egwyl 11:00 – 11:10

Strategaeth Ryngwladol 11:10 - 11:40
Papur FSAW 18/03/07

Materion y pwyllgor

Y cyfarfod agored diwethaf a materion sy'n codi 11:40 – 11:45
Papur FSAW 18/03/01

Adroddiad gan y Cadeirydd 11:45 – 11:55
Papur FSAW 18/03/02

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr 11:55 – 12:05
Papur FSAW 18/03/03

Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor 12:05 – 12:15

Sesiwn Holi ac Ateb Gyffredinol 12:15 – 12:20

Unrhyw fater arall 12:20

Diwedd y cyfarfod agored 12:25

Papurau i'w nodi – ar gael i'w gweld drwy www.food.gov.uk

Amserlen o Gyfarfodydd y Pwyllgor

Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

Bywgraffiadau Aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru

Mae'r papurau llawn ar gael drwy:<https://www.food.gov.uk/about-us/our-board/meetings/2018/010118/board-meeting-agenda-14-march-2018> (Saesneg yn unig)

FSAW 18/03/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru – Mawrth 2018

1. Adroddiad Cadeirydd Bwrdd i Gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2017

- 1.1 Soniodd y Cadeirydd am ei ymrwymadau a'i chyfarfodydd diweddar â Gweinidogion. Roedd hyn yn cynnwys ei chyfarfod â Steve Brine, yr Isysgrifennydd Seneddol newydd ar gyfer Iechyd y Cyhoedd lle cafwyd sgwrs adeiladol ar ddiwygio mesurau rheoleiddio ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Dywedodd y Cadeirydd ei bod hefyd wedi cwrdd â Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd y Cadeirydd bod y portffolio hwn bellach wedi'i drosglwyddo i Vaughan Gething, a'i bod yn gobeithio ei gyfarfod cyn gynted â phosibl. Nododd y Cadeirydd ei bod hi a Chadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru hefyd wedi cwrdd â Grŵp Gweinidogol ehangach Cymru i drafod Ymadael â'r UE. Cyfarfu'r Cadeirydd â Richard Pengelly, Ysgrifennydd Parhaol Gogledd Iwerddon dros Iechyd.
- 1.2 Dywedodd y Cadeirydd bod y Derbyniad Seneddol Blyneddol wedi bod yn llwyddiant, a bod llawer o Seneddwyr, rhanddeiliaid a swyddogion yr ASB wedi bod yn bresennol. Hefyd, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ymweld â Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) yn Weymouth, ffatri Warburtons a Chofrestr Lloyds, sy'n hyrwyddo ymatebion peirianeg a thechnoleg a siaradodd am ffocws ar addysgu'r cyhoedd ar ddiogelwch iechyd.

2. Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd

2.1 Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2017, aeth y Bwrdd ati i ystyried y papurau canlynol:

- **Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol: Diweddariad**
Roedd y papur hwn yn rhoi diweddariad ar waith yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, gan dynnu sylw at beth mae'r Uned wedi'i gyflawni a'r heriau y mae wedi'u hwynebu, ac amlinellu'r camau nesaf pe bai arian yn cael ei sicrhau i fwrw ymlaen â Cham 2.
- **Rheoleiddio Ein Dyfodol – rôl yr ASB fel Rheoleiddwr Cynorthwyol o dan Gynllun y Prif Awdurdod**
Roedd y papur hwn yn amlinellu rôl arfaethedig yr ASB fel rheoleiddwr cynorthwyol o dan Ddeddf Menter 2016 ac yn gofyn i'r Bwrdd drafod a chytuno ar natur a maint y rôl honno.
- **Rheoleiddio Ein Dyfodol – Datblygu'r Fframwaith Sicrwydd ar gyfer y Model Gweithredu Targed**
Roedd y papur hwn yn amlinellu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r fframwaith sicrwydd ar gyfer y Model Gweithredu Targed ac yn trafod y flaenoriaeth y gellir ei rhoi i gysyniad Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig y fframwaith sicrwydd.

- **Lleihau Ymwrthedd Gwrthficrobaidd**
Roedd y papur yn nodi gweithgareddau'r ASB mewn perthynas ag ymwrthedd gwrthficrobaidd.
- **Adroddiad Gwylidwriaeth**
Roedd y papur hwn yn rhoi diweddariad manylach i'r Bwrdd ar gynnydd y gwaith Gwylidwriaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.
- **Adroddiad ar Wyddor Gymdeithasol**
Drwy'r papur, gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno ar gyfeiriad rhaglen gwyddor gymdeithasol yr ASB a rhoi cyngor ar ffocws y Pwyllgor Gwyddor a Data Cymdeithasol newydd.

2.2 Mae cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd mis Rhagfyr 2017, sy'n rhoi mwy o gyd-destun, yn ogystal â chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod ar gael drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/our-board/meetings> (Saesneg yn unig)

3. Materion eraill

3.1 Fe wnes i gymryd rhan mewn diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yr Aelodau Bwrdd ym mis Ionawr. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd ymadael â'r UE, diogelwch TG a risg strategol.

3.2 Ym mis Ionawr, cynhaliais ddiwrnod datblygu ar gyfer y pwyllgor a oedd yn cynnwys sesiynau briffio ar Fewnwelediad Defnyddwyr gan dîm Gwyddorau Cymdeithasol yr ASB, diweddariad polisi gan Gyfarwyddwr Arweiniol yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru, trafodaeth ar Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd yng Nghymru, a throsolwg o raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

3.3 Ym mis Ionawr, fe ges i i gyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru lle cawsom y cyfle i drafod rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a materion yn ymwneud ag ymadael â'r UE. Yn ddiweddar, rwyf hefyd wedi cwrdd â thri chynrychiolydd ar ran Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru i drafod persbectifau Cymreig ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

3.4 Mae'r adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd a gomisiynwyd gan Gadeirydd y Bwrdd y llynedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Ar y cam hwn, gofynnwyd i ystod o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r Pwyllgorau Cynghori, staff yr ASB a chydweithwyr yn swyddfeydd y llywodraethau datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gyfrannu at holiadur sy'n ceisio barn ar sut mae'r Pwyllgorau Cynghori yn perfformio ac yn cyflawni eu swyddogaethau, sut y gellid gwella ar hyn, a pha effaith y maent yn ei chael. Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr ASB yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

Dr Ruth Hussey CB, OBE
Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
Mawrth 2018

Papur FSAW 18/03/03

I'w drafod

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr

1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 6 Rhagfyr 2017

1.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 17/12/03) sydd ar gael drwy <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/fsa171203.pdf> (Saesneg yn unig).

2. Adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru

Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rwyf wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar 30 Tachwedd 2017:

- 5 Rhagfyr – cyfarfod Brexit ac Economi Cymru
- 6 Rhagfyr – cyfarfod Parodrwydd y Sector â Llywodraeth Cymru
- 8 Rhagfyr – cyfarfod Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 12 Rhagfyr – Gweithgor Cymru Courtald 2025
- 29 Rhagfyr – cyfarfod â Mark Elliot, Cadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- 9 Ionawr – cyfarfod â Christianne Glossop – Prif Swyddog Milfeddygol
- 9 Ionawr – cyfarfod â Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd
- 10 Ionawr – cyfarfod â Lesley Griffiths AC a Mark Drakeford AC
- 11 Ionawr – cyfarfod â Tim Render, Cyfarwyddwr Arweiniol yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
- 22 Ionawr – Cynhadledd NFU Cymru – Brexit: Llywio dyfodol Amaethyddiaeth Cymru
- 23 Ionawr – mynychu brechwast ffermdy FUW (Undeb Amaethwyr Cymru)
- 29 Ionawr – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru

Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru (y Cod)

2.2 Ym mis Ionawr, cyhoeddodd yr ASB ymgynghoriad chwe wythnos ar y newidiadau arfaethedig i God Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru (y Cod). Nod y gwelliannau yw:

- mynd i'r afael â sylwadau a ddaeth i law gan randdeiliaid mewn ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn egluro trefniadau ynghylch cofrestru busnesau bwyd ac arolygu sefydliadau bwyd symudol, llongau ac awyrennau er mwyn lleihau gweithgarwch rheoleiddio diangen. Roedd hefyd yn adolygu gofynion cymwyseddau a chymwysterau ar gyfer swyddogion awdurdodedig sy'n cyflawni Rheolaethau Swyddogol a gweithgarwch gorfodi arall;
- diweddarau a darparu canllawiau ychwanegol ar ddigwyddiadau bwyd a mynd i'r afael â throseddau, e.e. twyll bwyd a throseddau bwyd;

- gwella strwythur, dyluniad a diwyg y ddogfen, a darparu gwell esboniad o'r broses ar gyfer gweithredu a gorfodi cyfraith bwyd er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y modd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei chyflawni.

Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod y Cod yn gyfoes, yn berthnasol ac yn cyd-fynd â'r Codau ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.

<https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/ymgynggori/2018/adolygu-cod-ymarfer-cymru-2018>

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)

2.3 Fel rhan o'r gwaith mae ASB Cymru yn arwain arno ar atchwanegiadau bwyd, rydym ni wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar gyda'r MHRA. Mae'r MHRA yn Asiantaeth Weithredol ar ran yr Adran Iechyd a'r MHRA yw Awdurdod Cymwys y DU dan Gyfarwydddebau perthnasol yr UE ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol, dyfeisiau meddygol ac ar gyfer gwaed a chydannau gwaed. Mae ein perthynas waith yn helpu i gynnal system reoleiddio effeithiol a chydgylltiedig ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr (yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Iechyd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynhyrchion meddyginiaethol).

2.4 Mae hyn yn arbennig o berthnasol i waith yr ASB ar atchwanegiadau bwyd a bwydydd newydd, er enghraifft, lle rydym ni'n cydweithio'n agos â'r MHRA ar statws cynhyrchion sy'n ffinio rhwng bod yn fwydydd ac yn feddyginiaethau. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn nodi'r fframwaith i gefnogi ein perthynas gydweithio. Rydym yn cytuno ar sut i rannu gwybodaeth, cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio perthnasol ac i fod o fudd i'r cyhoedd.

Ymadael â'r UE: Fframweithiau'r DU

2.5 Mae Gweinidogion o Lywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, ac uwch swyddogion Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, wedi gofyn i swyddogion ym mhob gweinyddiaeth gydweithio i drafod yn fanwl lle bydd angen dulliau (fframweithiau) deddfwriaethol cyffredin ar lefel Prydain Fawr neu'r DU unwaith y byddwn ni gadael yr UE. Mae nifer o 'sesiynau archwilio dwys' wedi'u cynnal yn canolbwyntio ar feysydd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd, megis amaethyddiaeth a physgodfeydd. Ddechrau mis Chwefror, roedd ASB Cymru yn bresennol yn y sesiwn archwilio dwys gyntaf, ochr yn ochr â chydweithwyr o'r ASB yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban, llywodraethau datganoledig a llywodraeth ganolog. Roedd y sesiwn yn cynnwys y meysydd canlynol:

Labelu bwyd

Safonau Cyfansoddiadol Bwyd

Dynodiadau Daearyddol

Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Tystysgrifau Iechyd Allforio

Santé F: Archwilio a Dadansoddi Iechyd a Bwyd

2.6 Hwn oedd y cam gyntaf ymlaen wrth i'r pedair gweinyddiaeth geisio dod i gytundeb ar yr angen i gynnal fframwaith ar draws y DU ar gyfer meysydd polisi a gynhelir gan

ddeddfwriaeth yr UE ar hyn o bryd. Bydd sesiynau dwys pellach yn cael eu trefnu i drafod sut y gellid cynnal fframweithiau a strwythurau llywodraethu.

Adroddiad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

2.7 Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i adolygu gweithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru flwyddyn ar ôl ei weithredu, a phob tair blynedd wedi hynny. At hynny, mae dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r system apelio bob blwyddyn. Mae'n rhaid gosod yr adroddiadau adolygu hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac anfon copi at Weinidogion Cymru.

2.8 Mae adroddiad wedi'i baratoi i fodloni'r gofyniad i'r ASB gynnal adolygiad tair blynedd o weithredu'r Cynllun o 28 Tachwedd 2014 i 27 Tachwedd 2017, ac adolygiad blynyddol pellach o weithrediad y system apelio i 27 Tachwedd 2017.

2.9 Gosodwyd yr adroddiad yn ddwyieithog gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror 2018. Mae'r adroddiad ar gael drwy:

Cymraeg: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11433/gen-ld11433-w.pdf>

Saesneg: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11433/gen-ld11433-e.pdf>

Gorfodi

2.9 Mae manylion erlyniadau safonau, hylendid a diogelwch bwyd llwyddiannus diweddar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael drwy:

<https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2015/14652/food-standards-agency-publishes-food-law-prosecutions-database>

3. Bwrw Golwg Ymlaen

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar 14 Mehefin, rwyf wedi ymrwymo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 19 Ebrill – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymruâ
- 24 Ebrill – Seminar Fforwm Bwyd a Maeth San Steffan: *The future of food regulation in the UK*

Richard Bowen
Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB Cymru
Mawrth 2018